**TUDALEN 16**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **14 Tachwedd 2022** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts; Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Jac Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Shane Parsons, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts.

Swyddogion :- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos Jones (Gweinyddu) Sioned Jones (Cofnodion).

**64/ 22 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Janet Abas, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Elin Walker Jones

**65/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**66/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad ar 50 mlwyddiant gefeillio'r Ddinas â Soest yn yr Almaen a fydd yn digwydd y flwyddyn nesaf. Roedd y cyflwyniad yn egluro'r syniad o efeillio trefi ar draws Ewrop a thu hwnt.
Gefeilliodd Bangor â Soest yn yr Almaen ym 1973 . Ers hynny bu llawer o ymweliadau rhwng y ddau le.
Gan y bydd 2023 yn hanner canmlwyddiant y gefeillio cyntaf, gofynnwyd i'r Cyngor gefnogi ymweliad gan gynrychiolwyr o Soest.
**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyngor yn sefydlu is-bwyllgor i oruchwylio'r ymweliad ac i ofyn i'r cyn-Gynghorydd Les Day gadeiro'r grŵp hwn, o ystyried ei phrofiad helaeth yn cysylltu â Soest.

**67/22 DERBYN ANERCHIAD GAN Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Adroddiad wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.*
Dywedodd Cyfarwyddwr y Ddinas fod y digwyddiadau cyhoeddus a drefnwyd yn ddiweddar wedi bod yn llwyddiant, sef yr Arddangosfa Tân Gwyllt, Diwrnod y Cadoediad a Gwasanaeth Sul y Cofio.
Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau i gyfethol ar y 2 sedd wag ar y Cyngor oedd 25 Tachwedd.
Roedd y Cyngor bellach wedi penodi gweinyddydd llawn amser ac fe'i croesawyd hi i'w chyfarfod cyntaf o Gyngor y Ddinas.

**68/22 CYMERADWYO ADRODDIADAU ARIANNOL:**
(i) Cyllideb 3 mis yn erbyn adroddiad gwirioneddol
(ii) Cyllideb 6 mis yn erbyn gwariant gwirioneddol.
(iii) Lwfans Aelodau ar gyfer 2022-2023.

Roedd yr adroddiadau cyllideb wedi'u hanfon i'r Cynghorwyr ymlaen llaw ac roeddent yn manylu ar union wariant y Cyngor yn erbyn y gyllideb flynyddol. Hefyd, roedd adroddiad ar

**TUDALEN 17**
Lwfansau Aelodau ar gyfer 2022-2023 wedi'i gylchredeg ymlaen llaw, a oedd yn argymell na ddylai'r Lwfansau newid o llynedd.
**PENDERFYNWYD:** derbyn yr adroddiadau a'r argymhelliad ar Lwfansau

**69/22 TRAFOD PRAESEPT 2023 – 2024**
Trafododd y Cyngor lefelau chwyddiant ar hyn o bryd a sut y byddai hyn yn effeithio ar wariant y Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol bresennol ac yn arbennig yn ystod blwyddyn ariannol 2023-2024. Trafododd y Cyngor hefyd amryw o brosiectau i'w cynnwys yn y flwyddyn ariannol nesaf wrth baratoi gogyfer â'r gyllideb flynyddol.

**70/22 YSTYRIED YMESTYN PROSIECT MAPIO BANGOR**
Eglurodd Cyfarwyddwr y Ddinas fod y cynllun i ddarparu arwyddion yng Nghanol y Ddinas yn fenter gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y prosiect presennol yn cynnwys ardal Bangor Uchaf. Roedd arweinwyr y prosiect, a benodwyd gan Gaerdydd, yn teimlo hefyd y byddai'r Ddinas yn elwa ar fap newydd i gyd-fynd â'r prosiect. Byddai ychwanegu'r elfennau newydd hyn at y prosiect yn costio oddeutu £3,200.
**PENDERFYNWYD**

a) bod Cyngor y Ddinas yn talu am ymestyn y cynllun arwyddion i Fangor Uchaf
b) gofyn i'r contractwr gael mapiau newydd a fyddai'n fwy addas na'r rhai presennol.

**71/22 CYMERADWYO'R CYSYNIAD O BRYNU ADEILADAU STRYD FAWR**
Trafododd y Cyngor fanteision a rhwymedigaethau prynu adeiladau yng nghanol y Ddinas, gyda golwg ar gynnig yr adeiladu i grwpiau cymunedol a phrosiectau lleol. Byddai prosiect fel hwn yn helpu i wella delwedd y Stryd Fawr, ac yn helpu grwpiau cymunedol yr un pryd.
**PENDERFYNWYD:** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig edrych ar opsiynau ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

**72/22 CAIS AM GYMORTH I GRACYR NADOLIG BANGOR**
Roedd Grŵp Cymunedol Bangor wedi cynnig trefnu dathliad Nadolig yn y Ddinas ar 4 Rhagfyr 2022. Gofynnwyd i'r Cyngor am gyfraniad o £10,500 i ariannu'r digwyddiad hwn. Bu'r Cyngor yn pwyso a mesur y cais.
**PENDERFYNWYD:** cytuno i ariannu'r digwyddiad gyda grant o £10,500. Awgrymwyd y gellid gofyn i'r BID ariannu'r digwyddiad ar y cyd. Pe bai'r BID yn cymeradwyo hyn, gallai leihau atebolrwydd y Cyngor.

**73/22 CYMERADWYO'R RHESTR TALIADAU**
Roedd rhestr taliadau mis Medi a mis Hydref wedi'i hanfon i'r Cynghorwyr ymlaen llaw.
**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r rhestr o daliadau Medi a Hydref.

**MATER CYFRINACHOL**
Gwaharddwyd y Wasg a'r Cyhoedd ar gyfer yr eitem hon a thrafodwyd yr eitem yn gyfrinachol.

**74/22 TRAFOD LES NANTPORTH**

**TUDALEN 18**

Roedd y Cyngor wedi derbyn adroddiad gan gadeirydd is-bwyllgor Nantporth. Roedd yn manylu ar y camau a gymerwyd i sicrhau hyfywedd ariannol parhaus Nantporth CIC.
Penderfynwyd: Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig

i. Gysylltu â'r CIC ynghylch y diffyg cydymffurfiaeth â'r Les.
ii. Trafod cynlluniau Nantporth CIC a'i hyfywedd i'r dyfodol
iii. Cymryd y camau y cytunwyd arnynt, fel y bo angen.
iv. Penodi adnoddau, os oedd angen.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR